# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Chwefror 2017

Amser: 09. - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3845

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Nicola Charles, Llywodraeth Cymru<br>Paul Webb, Devolved Sercvices Reform<br>Sophie Howe, Future Generations Commissioner<br>Marie Brousseau-Navarro, Legislation and Innovation |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 517KB) Gweld fel HTML (310KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC.

1.3. Datganodd yr Aelodau a ganlyn fuddiannau perthnasol fel aelodau o undebau:

- John Griffiths AC;
- Jenny Rathbone AC
- Joyce Watson AC
- Rhianon Passmore AC
- Siân Gwenllian AC.

## 2 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
- Paul Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Gwasanaethau Datganoledig
- Nicola Charles, Cyfreithiwr

2.2 Bu i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wneud datganiad o fuddiant fel aelod o undeb.

2.3 Yn ystod y sesiwn, cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu eglurhad ynghylch y graddau y bydd y Bil yn effeithio ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran awdurdodau datganoledig yng Nghymru, yn ogystal â'r awdurdodau hynny eu hunain a'u gweithwyr.

## 3 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Marie Brousseau-Navarro, Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi

3.2 Cytunodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddarparu copi o'r llythyr a anfonwyd at bob awdurdod lleol mewn perthynas â'r amserlenni statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar faterion na chafwyd cyfle i'w trafod yn ystod y cyfarfod, ac ar faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan y Llywydd mewn cysylltiad â Senedd@Casnewydd

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Llywydd mewn perthynas â Senedd@Casnewydd

### 4.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn cysylltiad â 'Llais Cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a sefydliadau datganoledig'.

4.2 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â 'Llais Cryfach i Gymru: ymgysylltu â Chymru/San Steffan a gwledydd datganoledig'

### 4.3 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches

4.3 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cadeirydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

### 4.4 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches

4.4 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

## 6 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - trafod tystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 3.

## 7 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) - trafod y dystiolaeth o dan eitem 2

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2.